

Mae'r datganiad i'r wasg yma'n ddwyieithog - This press statement is bilingual



RTPI

mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Newyddion am i'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Dyddiad: 10 Awst 2011

Ref: PR

Contact: James Butler 07970 644 916

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Seminar yr Eisteddfod Awst 4ydd, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

“Seminar yn galw ar y Llywodraeth i ail feddwl”

Mewn seminar Eisteddfod blynyddol RTPI Cymru datganwyd pryderon mawr gan y gynulleidfa o ymarferwyr cynllunio defnydd tir, iaith a thai y byddai sefyllfa ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymdeithasol yn wannach o ganlyniad i gynigion diweddaraf y Llywodraeth Cymru.

Mae drafft ymgynghorol Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20 yn cynnig newidiadau i'r Nodyn presennol sydd wedi ei gyhoeddi yn 2000. Er bod dyddiad cau'r ymgynghoriad wedi bod ym mis Mehefin mae amryw sydd wedi ymateb wedi mynegi eu hanhapusrwydd i'r Llywodraeth ac yn awyddus i gydweithio gydag eraill i geisio perswadio'r Llywodraeth i wella'r cynigion.

Meddai Eira Hughes, Cadeirydd y Seminar, “Roedd yna nifer dda o bobol brofiadol dros ben yn Seminar Eisteddfod RTPI Cymru, eleni, gyda phrofiad dwfn o gynllunio ymarferol, yn cynnwys cynllunio yn yr ardaloedd sydd fwyaf sensitif o ran yr iaith Gymraeg. Roedd pawb yn awyddus i sicrhau defnydd ehangach o'r technegau gorau cyfredol. Gwelsom esiamplau da iawn o waith i ystyried effeithiau polisïau cynllunio a datblygiadau newydd ar gymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf, neu'n cryfhau, neu'n gwanhau. Gwelwyd sut y gellid

defnyddio'r rhain i oleuo Cynlluniau Lleol, a hefyd penderfyniadau ar y ceisiadau unigol mwyaf, mwy arwyddocaol - yn unol â'r TAN 20 cyfredol (dyddiedig 2000). Ond, roedd yn glir y gall yr arfer da hwn gael ei farnu'n amhriodol yn y dyfodol."

Meddai Roisin Willmott, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, RTPi Cymru: "Roedd barn unfrydol fod diffygion mawr yn y Nodyn ymgynghorol a rhwystredigaeth amlwg nad yw'r Nodyn drafft hwn yn ein symud ymlaen o'r sefyllfa 11 mlynedd yn ôl. Yn wir y mae rhai yn amau a oes unrhyw gynnwys technegol yn y Nodyn drafft".

Y newid mwyaf dadleuol o bell yw'r cyngor ar Reoli Datblygu ac yn arbennig y cyngor a gyflwynir ym mharagraff 4.1.1. Ei ganlyniad fyddai dileu'r hawl i awdurdodau lleol mewn rhai amgylchiadau fynnu fod tystiolaeth ieithyddol neu asesiad effaith ieithyddol yn cael ei gyflwyno fel rhan o gais cynllunio.

Bu beirniadaeth hefyd nad yw'r Nodyn wedi cynnwys arweiniad ar sut i gynnal asesiadau effaith ieithyddol a'i fod wedi methu ag adolygu profiadau awdurdodau lleol, datblygwyr a chynllunwyr iaith sydd wedi ceisio datblygu methodoleg dros y ddegawd ddiwethaf. Mae hefyd yn codi cwestiwn am statws y cynlluniau lleol hynny sydd wedi eu mabwysiadu gyda pholisi o fynnu asesiad effaith ieithyddol gyda chais cynllunio mewn rhai amgylchiadau. Gall y fath asesiadau fod yn gam pwysig tuag at sefydlu amodau cynllunio a chytundebau cynllunio perthnasol a theg - nes ymlaen yn y broses gynllunio.

Penderfynodd y cyfarfod ofyn am gyfarfod gyda'r tri Gweinidog sydd yn ymwneud â maes polisiâu'r Gymraeg a Chynllunio (John Griffiths, Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Huw Lewis, Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Maent am leisio eu pryderon am y diffyg effeithiolrwydd a chydlyniad polisi yn y maes ac yn galw am adolygiad cynhwysfawr o'r maes. Y bwriad yw sicrhau fod fframwaith briodol yn ei le ar gyfer adfywio'r Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog fel rhan o raglen deddfwriaethu'r Llywodraeth.

DIWEDD

1. RTPI: Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Yr RTPI yw'r sefydliad proffesiynol mwyaf I gynllunwyr yn Ewrop, gyda dors 23,000 aelod, 1,100 ohonynt yng Nghymru. Yn ogystal â hyrwyddo cynllunio gofodol, mae'r RTPI yn datblygu a chreffio polisiau sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Y mae'n cegnogi aelodau drwy addysg, hyfforddiant a datblygu parhaus ac yn gweithio i godi safonau proffesiynol.

Am wybodaeth bellach cymerwch olwg ar wefan yr RTPI - www.rtpi.org.uk

41 Botolph Lane, London, EC3R 8DL

RTPI, elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841



RTPI

mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

News from the Royal Town Planning Institute

Date: 10 August 2011

Ref: PR

Contact: James Butler 07970 644 916

Planning and the Welsh Language

Eisteddfod Seminar August 4th, Glyndŵr University, Wrexham

“Seminar calls on the Government to reconsider”

At the RTPI Cymru annual Eisteddfod seminar grave concern was expressed by the audience of land use planning, language and housing practitioners that the position of those areas where Welsh is part of the social fabric would be weakened as a consequence of the Welsh Government’s latest proposals.

The consultative draft Technical Advice Note (TAN) 20 proposes amendments to the existing TAN which was published in 2000. Although the closing date for responses passed in June a number of those who responded expressed their concerns about some of the proposed changes. There was a clear desire expressed at the seminar to work together to try and persuade the Government to make improvements.

Eira Hughes, who chaired the Seminar, said “There were many experienced practitioners at this year’s RTPI Cymru Eisteddfod Seminar, with deep experience of practical planning work, including in areas which are sensitive in respect of the Welsh language. Everyone was keen to ensure wider use of the best contemporary techniques. We saw examples of recent very good work to assess the impact of planning policies and new developments upon communities

where the language is strong, or strengthening, or weakening. We saw how these could inform the contents of Local Plans, and also decisions on the larger and more significant local planning decisions, in line with the current TAN 20 (2000). But, it was clear that much of this current good practice may not be deemed appropriate in the future.”

Roisin Willmott, RTPI Cymru’s National Director, said: “The audience were unanimous in their opinion that there were major weaknesses in the draft TAN and it was obvious that a number felt extremely frustrated that this draft does not move us forward from the position 11 years ago. Indeed, some questioned whether there was any technical content in the draft TAN at all”.

The most controversial section of the TAN is the advice on Development Management and in particular the advice introduced in paragraph 4.1.1. Its result would be to do away with the powers of local planning authorities to require applicants in some circumstances to include linguistic evidence or language impact assessments as part of their planning application.

There was criticism also that the TAN has not included guidance on how to prepare language impact assessments nor reviewed the experience of local authorities, developers and language planners who have tried to develop methodologies over the last decade. Questions were also raised about the status of those local development plans that have been recently adopted with policies that require language impact assessments to accompany some planning applications. Such assessments may be an important step towards setting fair and appropriate planning conditions and agreements, at a later stage in the planning process.

Those attending decided to express its concerns to the Welsh Government, and to ask for a meeting of RTPI Cymru with the three Ministers concerned with the Welsh Language and Planning (John Griffiths, Minister for the Environment and

Sustainable Development; Leighton Andrews, Minister for Education and Skills, and Huw Lewis, Minister for Housing, Regeneration and Heritage) and the Welsh Language Board. Delegates at the Seminar are anxious to voice their concerns about the lack of an effective and co-ordinated policy response and to request a comprehensive review for this policy area. The aim will be to ensure that a planning policy and technical guidance framework will be in place as part of the Government's legislative programme for the regeneration of the Welsh language and the creation of a bilingual Wales.

ENDS

1. RTPI: The Royal Town Planning Institute

The RTPI is the largest professional institute for planners in Europe, with over 23,000 members, 1,100 in Wales. As well as promoting spatial planning, RTPI develops and shapes policy affecting the built and natural environment, works to raise professional standards and supports members through continuous education, training and development.

For further general information, visit the RTPI website at: www.rtpi.org.uk

41 Botolph Lane, London, EC3R 8DL

RTPI, a charity registered in England 262865 and Scotland SC 03784